

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Banc Seilwaith y DU

Hydref 2022

1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd 'Bil Banc Seilwaith y DU ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Noddir y Bil gan Drysorlys ei Mawrhydi.
2. Ar 25 Mai 2022, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog") Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol² (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil.
3. Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm hwn ar y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor"); y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 29 Medi 2022.³
4. Ar 8 Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil.⁴ Cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 17 Tachwedd 2022.⁵

¹ Bil Banc Seilwaith y DU, fel y'i cyflwynwyd

²Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU 2022

³Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU, Mehefin 2022

⁴Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 2), Bil Banc Seilwaith y DU, Gorffennaf 2022

⁵ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, Bil Banc Seilwaith y DU, Gorffennaf 2022

2. Amcanion Polisi Llywodraeth y DU / Crynodeb o'r Bil

5. Cyhoeddwyd y bwriad i greu banc seilwaith y DU ("y Banc") gyntaf gan y Canghellor yn Adolygiad o Wariant 2020.⁶ Lansiodd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021.

6. Diben datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil hwn yw gosod sail statudol i'r Banc, a fydd yn gweithredu ledled y DU. Amcanion polisi datganedig y Bil, yn ôl Llywodraeth y DU, yw sefydlu'r Banc i helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hybu twf economaidd rhanbarthol a lleol drwy roi mynediad at offerynnau ariannol, gan gynnwys benthyciadau i awdurdodau lleol i'w galluogi i fuddsoddi mewn seilwaith.⁷

7. Drwy roi sylfaen statudol i'r Banc, mae'r Bil yn ceisio:⁸

- cadarnhau a rhoi grym statudol i amcanion a gweithgareddau'r Banc;
- sicrhau bod y Banc yn sefydliad hirhoedlog;
- creu ffurfiau statudol o dryloywder, atebolrwydd a llywodraethiant ar gyfer y Banc;
- dileu rhwystrau cyfreithiol sy'n atal y Banc rhag benthycu'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol; a
- rhoi pwerau penodol i'r Trysorlys i roi cymorth ariannol i'r Banc.

8. Mae egwyddorion buddsoddi'r Banc a'r cefndir cyfreithiol i'w gweld yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.⁹

3. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd unrhyw Fil perthnasol gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth

⁶ [Adolygiad o Wariant y DU 2020](#)

⁷ Bil Banc Seilwaith y DU, [Nodiadau Esboniadol](#), Mai 2022

⁸ Bil Banc Seilwaith y DU, [Nodiadau Esboniadol](#), Mai 2022

⁹ Bil Banc Seilwaith y DU, [Nodiadau Esboniadol](#), Mai 2022

mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

10. Mae'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg mewn perthynas â Chymru. Dywed:

"Mae prif bwnc y Bil, sef darparu cymorth ariannol a chynghor i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (gan gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), yn faes datganoledig o'r gyfraith. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar y darpariaethau a ganlyn yn y Bil:¹⁰

11. Mae'r Memorandwm yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.¹¹ Rhestrir y cymalau hyn isod:

- Cymal 1 (Diffinio'r banc), 10 (Dehongli) ac 11 (Rychwant, cychwyn a theitl byr)
- Cymal 2 (amcanion a gweithgareddau)
- Cymal 3 (blaenoriaethau a chynlluniau strategol);
- Cymal 4 (Cyfarwyddyd);
- Cymal 5 (Cymorth Ariannol);
- Cymal 6 (Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol) a 7 (Cyfarwyddwyr: penodi a deiliadaeth)
- Cymal 8 (Dyletswyddau'r Banc);
- Cymal 9 (Adolygiadau o effeithiolrwydd ac effaith y Banc).

12. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU o'r farn mai dim ond ar gyfer cymalau 2, 3, 4, 5, 8 ac 11 o'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd.¹²

¹⁰Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 25

¹¹Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraffau 24-42

¹²Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 43

13. Nid yw'r sefyllfa o ran cydsyniad wedi newid yn dilyn gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Gorffennaf 2022. Mae crynodeb o'r gwelliannau hyn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.¹³

4. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

14. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod y Bil yn ei ffurf bresennol yn "bygwth cymwyseddau datganoledig".¹⁴ Wrth esbonio safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, mae'n nodi:

*"Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd, Gweinidogion Cymru, na swyddogion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, tra'n cadw gweithgareddau penodol ar gyfer y Senedd, y Canghellor a Thrysorlys Ei Mawrhydi, megis y pŵer i Drysorlys Ei Mawrhydi ddiwygio cyfeiriad strategol y Banc gan gynnwys mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli heb ymgynghori â'r Senedd na Llywodraeth Cymru."*¹⁵

15. Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am welliannau i gyflwyno gwaith y Banc mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli i "sichrau bod datganoli'n cael ei barchu." Mae hefyd yn nodi bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys yn dadlau bod sefydliadau datganoledig " yn arfer pwerau cyfatebol i bwerau ein cymheiriaid yn y DU" i sichrau "atebolrwydd democrataidd priodol" yn strwythurau llywodraethu'r Banc. Mae Llywodraeth Cymru yn haeru bod cydraddoldeb o ran llywodraethu'n gydnaws ag egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â "chyrff trawsffiniol sydd â swyddogaethau datganoledig a sefydlir ym Miliau'r DU".¹⁶

16. Mewn perthynas ag agenda Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU a rhaglenni ariannu cysylltiedig, mae'r Memorandwm yn nodi y gallai meysydd sy'n peri pryder fel, "dyraniadau nad ydynt yn cyd-fynd â pholisi datganoledig, honiadau o ragfarn wleidyddol, y risg o werth gwael

¹³Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Rhif 2\)](#), Bil Banc Seilwaith y DU, Gorffennaf 2022, paragraff 31

¹⁴Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#), Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 47

¹⁵Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#), Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 48

¹⁶Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#), Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraffau 49 a 52

am arian" ddwysáu o ganlyniad i weithrediadau'r Banc, os na sicrheir statws cyfatebol i sefydliadau datganoledig yn strwythurau llywodraethu'r Banc.¹⁷

17. Ar 22 Mehefin 2022¹⁸, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog, i gael ei barn am y Bil ac i gael rhagor o fanylion am unrhyw welliannau yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu gofyn i Lywodraeth y DU eu gwneud.

18. Yn ystod y sesiwn, nid oedd y Gweinidog yn gallu cadarnhau safbwynt terfynol Llywodraeth Cymru ynghylch p'un a fyddai'n argymhell rhoi cydsyniad o ystyried bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU ynghylch gwelliannau posibl i'r Bil. Fodd bynnag, rhoddodd y Gweinidog wybodaeth i'r Pwyllgor am y trafodaethau hynny:

"I did meet with the Chief Secretary to the Treasury last week for a bilateral, where we raised a number of issues of importance to Wales, this being one of them. And whilst, in principle, I think that the bank could be a good thing, it's an additional source of capital for private and public borrowing, but we do need equivalence. So, when the UK Government is setting up something that will operate in Wales, in Welsh spaces, then we do need to ensure that we are able to have that say, for example, in the bank's remit and also in terms of the governance of the bank as well. So, the UK Treasury Ministers are able to nominate people to be directors for the bank, but where's the role for devolved Governments in that space? So, there are some things that we would want to see the UK Government move on in terms of amendments to the Bill before we're able to come to a decision."¹⁹

19. Ychwanegodd "we do need to have that equivalence in terms of Welsh Government and the governance of the bank".²⁰

20. Rhoddodd y Gweinidog hefyd ychydig o wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor am y gwelliannau a geisir, y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm:²¹

"The kind of amendments we would want to be considered are around who appoints directors to the bank and what role the devolved Governments

¹⁷Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#), Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 50

¹⁸[Agenda, 22 Mehefin 2022](#), Eitem 3

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mehefin 2022, paragraff 161

²⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mehefin 2022, paragraff 161

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mehefin 2022, paragraff 161

*would have in that and then also the setting of the bank's mandate, or the direction of the bank, and what role we would play in that, bearing in mind the points that you raised about the importance of ensuring that investment is in line with Welsh Government priorities."*²²

Safbwynt y Pwyllgor

21. Wrth drafod y Memorandwm, ac yn amodol ar unrhyw welliannau a wneir i'r Bil, mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan, gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg mewn perthynas â Chymru.

22. At hynny, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Gweinidog yn ei hymdrechion i bwysu am ddiwygio'r Bil fel bod gweinyddiaethau datganoledig yn cael llais yn strwythurau llywodraethu'r Banc, a rôl ddiffiniedig wrth lunio cylch gwaith a chyfeiriad strategol y Banc. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y byddai hyn yn gydnaws ag egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â "llywodraethu cyrff trawsffiniol sydd â swyddogaethau datganoledig a sefydlir ym Miliâu'r DU",²³ ac y dylid dilyn yr egwyddorion hyn mewn perthynas â'r Bil hwn.

23. Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch gweinyddu ffrydiau ariannu sy'n gysylltiedig ag agenda Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU a sut y gallai gweithrediadau'r Banc ddwysáu'r problemau hyn. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod angen sicrhau nad yw'r broses ddatganoli'n cael ei thanseilio ac, at y diben hwnnw, fod angen i'r Bil roi pwerau a statws i'r gweinyddiaethau datganoledig sy'n cyfateb i'r pwerau a'r statws a roddir i Weinidogion y DU mewn perthynas â Llywodraethu'r Banc.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd

Casgliad 2. Fel y nodwyd, mae'r Memorandwm a thystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor wedi cyfeirio at welliannau a geisiwyd mewn perthynas â'r Bil, o ran strwythurau llywodraethu, a chylch gwaith a chyfeiriad strategol y Banc. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth a gafwyd gan y Gweinidog ond, oherwydd nad yw manylion penodol am y gwelliannau hyn yn hysbys eto, ni all y Pwyllgor roi barn ynghylch a ddylid argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Memorandwm. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Pwyllgor y dylid diwygio'r Bil i roi rôl ddiffiniedig i

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mehefin 2022, paragraff 161

²³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 49

Weinidogion Cymru mewn perthynas â llywodraethu Banc Seilwaith y DU sy'n cyfateb i'r statws a roddir i Weinidogion y DU.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, fel egwyddor gyffredinol, y dylai strwythurau llywodraethu unrhyw gorff trawsffiniol a sefydlir yn y dyfodol gan Fil y DU ac sy'n gweithredu o fewn meysydd datganoledig, roi pwerau a statws i Lywodraeth Cymru a/neu'r Senedd sy'n cyfateb i'r pwerau a'r statws a roddir i Weinidogion y DU a/neu Senedd y DU.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi manylion y gwelliannau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt mewn perthynas â'r Bil, a hynny cyn gynted â phosibl, er mwyn helpu'r Pwyllgor i drafod y Memorandwm.